# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH 6 GORFFENNAF 1999

## RHAN 1—ADRAN A

## AGENDA

**Am 1.30 pm bydd y Llywydd yn croesawu Ei Ardderchogrwydd Mr Philip Lader, Llysgennad America i annerch y Cynulliad.**

**Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 2pm.**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Rhyngrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Dadl ar Ofal Plant** (i orffen am 5pm)
Cynnig bod y Cynulliad:

- yn nodi pwysigrwydd gofal plant ar gyfer teuluoedd a phlant yng Nghymru o safbwynt cyfrannu at dwf economaidd, creu a chadw swyddi; iechyd a lles teuluoedd; canlyniadau addysgol, ac atal dieithrwch cymdeithasol;
- yn nodi canlyniadau ac argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Ofal Plant yng Nghymru; ac
- yn cyfeirio'r Adroddiad at y Pwyllgor Gweithredol ac yna at Bwyllgorau priodol y Cynulliad er mwyn iddynt ystyried sut y gall y Cynulliad fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adroddiad.
  *I'w gynnig gan Jane Hutt, Yr Ysgrifennydd Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

Mae'r gwelliant canlynol wedi'i ddethol:

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** Ar ôl yr ail baragraff, yn dilyn "Gofal Plant yng Nghymru; a", ychwaneger; "yn arbennig

- Yn cydnabod, er mwyn ei gwneud yn bosibl darparu system gofal plant o safon uchel i bawb yng Nghymru, yn enwedig i'r teuluoedd mwyaf difreintiedig, bod angen buddsoddiad ariannol ychwanegol sylweddol;
- Yn credu y gallai llawer o'r buddsoddiad ychwanegol hwn ddod o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, os bydd arian cyfatebol ar gael;
- Yn credu ei bod yn hanfodol bod trefniadau gofal plant wedi'u hariannu'n ddigonol yn rhan annatod o gyfleoedd dysgu gydol oes;
- Yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol i gyflawni'r amcanion hyn.

**Dadl Fer**
Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi gofal iechyd ataliol ac felly mae o blaid diddymu'r tâl a godir am brofion llygaid.
*Cynnig gan Jenny Randerson (Canol Caerdydd)*

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher 7 Gorffennaf 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**